## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 31 (CAERWYS) I GYFFORDD 32A (PENTRE HELYGAIN), SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 31 a Chyffordd 32a, Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 14 Gorffennaf 2025. Disgwylir i'r gwaharddiadau dros dro fod yn weithredol dros nos (21:30 – 05:30 o'r gloch) ar y dyddiadau a ganlyn:

- 14/07/2025
- 15/07/2025 (dyddiad wrth gefn)
- 03/09/2025
- 04/09/2025 (dyddiad wrth gefn)
- 06/10/2025
- 07/10/2025 (dyddiad wrth gefn)
- 27/10/2025
- 28/10/2025 (dyddiad wrth gefn).

Dim ond ar y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 31 (CAERWYS) TO JUNCTION 32A (PENTRE HALKYN), FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 31 and Junction 32a, Flintshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

The Order comes into force on 14 July 2025. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (21:30 – 05:30 hours) on the following dates:

- 14/07/2025
- 15/07/2025 (contingency date)
- 03/09/2025
- 04/09/2025 (contingency date)
- 06/10/2025
- 07/10/2025 (contingency date)
- 27/10/2025
- 28/10/2025 (contingency date).

Although the Order is only expected to operate on the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 31 hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32a.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32a hyd at ganolbwynt Cyffordd 31.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31.

Y darnau o'r ffyrdd ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 32.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32a.

<u>Y llwybrau eraill</u>

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 31 fydd mynd ar yr A5026 tuag at Dreffynnon i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 32a.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Gyffordd 32a fydd mynd ar y B5123 Ffordd Springfield Hill/Pentre hyd at ei chyffordd â'r A5026 Ffordd Treffynnon a dilyn yr A5026 i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 31.

## SCHEDULE

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 31 to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 32a.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 32a to the centre-point of Junction 31.

The lengths of the eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 31.

The lengths of the eastbound and westbound exit slip roads at Junction 32.

The length of the westbound entry slip road at Junction 32a.

<u>Alternative routes</u>

The alternative route for eastbound traffic from Junction 31 will be via the A5026 towards Holywell to rejoin the A55 at Junction 32a.

The alternative route for westbound traffic from Junction 32a will be via the B5123 Springfield Hill/Pentre Road to its junction with the A5026 Holywell Road and follow the A5026 to rejoin the A55 at Junction 31.